Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 30.05.22 |
| **Pwnc / Subject:** | **Prosiect Adfywio'r Meini Prawf Achredu ar gyfer AGA yng Nghymru** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br><br>Rydym yn croesawu'r adolygiad hwn o'r Meini Prawf Achredu ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru. Mae'r Meini Prawf wedi bod â rôl bwysig mewn sicrhau diwygio AGA. Mae gweithio gyda'r Meini Prawf wedi dangos y byddai agweddau ar y ddogfen yn elwa ar eglurhad, ochr yn ochr â'r diweddaru angenrheidiol i sicrhau ei bod yn gyfredol.<br><br>Roedd y ddogfen wreiddiol yn ffordd fuddiol o lywio diwygio AGA yng Nghymru, ac o'r herwydd, cyflwynodd weledigaeth ar gyfer newid. Mae tôn y Meini Prawf yn cyferbynnu'n llwyr â'r **'Gofynion ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru'** (Llywodraeth Cymru, 2013) blaenorol, a gyflwynwyd yn syml fel set o reolau a chanllawiau. Mae'n amserol ailedrych ar y Meini Prawf i wahaniaethu'n eglur rhwng cyd-destun / athroniaeth a materion nad ydynt yn agored i'w trafod o ran AGA yng Nghymru. Byddai hefyd yn fuddiol ailysgrifennu'r Meini Prawf fel eu bod yn symlach, yn fwy manwl a gwrthrychol, ac o'r herwydd, yn gweddu'n well i'r cam nesaf hwn wrth ddatblygu partneriaethau AGA. |

## Cwestiynau ymgynghori

**1. Pa ddiwygiadau y gellid eu gwneud i'r meini prawf i adlewyrchu'r diwygiadau addysg parhaus yng Nghymru?**

| |
|---|
| Rydym yn meddwl y byddai'n fuddiol i'r Meini Prawf gyfeirio at sawl blaenoriaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r cysyniadau sylfaenol sy'n ymwneud â'r rhain o ran eu haddysgu. Gweler ein hymateb i gwestiwn 5 am fwy o fanylion. |

**2. Wrth fyfyrio ar eich profiad o'r rhaglenni AGA newydd, a allwch chi amlinellu beth mae partneriaeth wedi'i olygu i chi, sut mae wedi datblygu a sut y gellid ei datblygu ymhellach?**

| |
|---|
| Mae Adroddiad Blynyddol Estyn 2021-2022 - y crynodeb o'r sector ar gyfer AGA yn darparu crynodeb o ganfyddiadau o'n gwaith ymgysylltu â'r partneriaethau. Yn y crynodeb o'r sector AGA, rydym yn nodi sawl pwynt allweddol am weithio mewn partneriaeth:<br><br>• Mae'r holl bartneriaethau'n dangos ymrwymiad cryf i gydweithio, ac mae perthnasoedd gweithio yn aeddfedu.<br>• Mae'r holl bartneriaethau'n datblygu diwylliant o arferion wedi'u llywio gan ymchwil.<br>• Er gwaethaf yr ansicrwydd yn sgil Covid-19, mae prifysgolion ac ysgolion wedi dangos dygnwch a hyblygrwydd nodedig mewn gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant eleni.<br>• Mae llawer o bartneriaethau'n casglu ystod eang o ddata am gynnydd myfyrwyr, ond megis dechrau cael eu datblygu y mae systemau effeithiol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn strategol i lywio gwelliannau.<br>• Mae'r holl bartneriaethau wedi wynebu anawsterau mewn lleoli myfyrwyr mewn ysgolion eleni oherwydd cyfyngiadau Covid-19, a bu'n rhaid iddynt ddefnyddio |

rhwydwaith ehangach o ysgolion. Yn ychwanegol, nid yw partneriaethau wedi cynnal gweithdrefnau sicrhau ansawdd a datblygiad mentoriaid unigol, yn unol â'r bwriad. O ganlyniad, mae profiadau myfyrwyr wedi amrywio'n sylweddol.

- Mae'r holl bartneriaethau wedi gweld gwerth mewn cyfarfod a gweithio'n rhithwir, ac mae hyn wedi bod o fudd i ddatblygu'r bartneriaeth.

3. **O ran materion penodol ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth, pa wersi a ddysgwyd y gellid eu cofnodi o dan y meini prawf diwygiedig er mwyn cefnogi gweithio gwirioneddol mewn partneriaeth yn y dyfodol?**

Yn ein gwaith ymgysylltu gyda'r partneriaethau a thrwy ein gweithgarwch peilot i ddatblygu ein trefniadau arolygu, rydym wedi nodi ymrwymiad clir i weithio mewn partneriaeth. Mae llawer o bartneriaethau, yn enwedig y rhai sydd â rhaglenni AGA sefydledig, yn rheoli cyfnod pontio o fodel wedi'i arwain gan SAU i fodel lle caiff ysgolion arweiniol eu cynnwys yn llawnach ym mhob agwedd ar arwain a rheoli'r bartneriaeth.

Mae agweddau heriol ar weithio mewn partneriaeth yn cynnwys:

- Egluro rolau a chyfrifoldebau arwain
- Datblygu llinellau atebolrwydd trwy'r strwythurau arwain
- Datblygu prosesau hunanwerthuso a gwella. Mae'r rhain yn tueddu i gael eu harwain gan y SAU, er bod ysgolion a phartneriaid eraill yn dechrau datblygu eu rôl yn y gwaith hwn
- Hunanwerthuso a sicrhau ansawdd addysgu a mentora a dylunio rhaglenni ar y cyd
- Gweithio gyda'r Safonau Proffesiynol gyda'r holl bartneriaid i asesu cynnydd myfyrwyr yn deg ac yn gyfannol
- Gweithio gyda'r consortia rhanbarthol i sicrhau bod ysgolion ac adrannau pynciau uwchradd yn cael eu dewis yn briodol.

4. **Pa waith pellach i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth fyddech chi'n disgwyl gweld arwydd ohono trwy'r meini prawf?**

Mae'n bwysig fod unrhyw ychwanegiadau at y Meini Prawf yn fuddiol i athrawon hyfforddiant yn y pen draw (a bod y partneriaethau'n gwerthuso pob agwedd ar weithio mewn partneriaeth i sicrhau effeithiolrwydd ac effaith).

Gallai ychwanegiadau gynnwys:

- Trefniadau ar gyfer dysgu proffesiynol, defnyddio arbenigedd yr holl sefydliadau partner
- Cysylltiadau cryfach rhwng AGA ac ymsefydlu trwy weithio mewn partneriaeth yn agosach gan SAUau, ysgolion a chonsortia rhanbarthol
- Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu medrau Cymraeg myfyrwyr (gallai hyn gynnwys darparwyr cyfrwng Cymraeg, ysgolion a darpariaeth Cymraeg i Oedolion)

Gall hefyd fod yn fuddiol nodi partneriaethau gyda sectorau eraill y gallai myfyrwyr fod yn addysgu ynddynt fel rhan o'u rhaglenni. Gall hyn fod yn fuddiol i sefydlu cysylltiadau partneriaeth cryfach ag ystod o ddarparwyr. Gall sectorau o'r fath gynnwys:

- Ysgolion arbennig

- Sefydliadau Addysg Bellach
- Lleoliadau nas cynhelir

5. **Wrth i'r diwygiadau addysgol yng Nghymru barhau ac wrth inni yrru hanfodion a gwelliannau polisi ymlaen, ble fyddech chi'n disgwyl gweld ein huchelgais yn codi a'n disgwyliadau'n cael eu hadlewyrchu trwy'r Meini Prawf?**

I yrru gwelliannau polisi ymlaen, rydym yn awgrymu y byddai'n fuddiol ailedrych ar y modd y caiff datblygu'r **Cwricwlwm i Gymru** (Llywodraeth Cymru, 2020) ei gefnogi trwy'r Meini Prawf, yn ogystal ag agweddau ar **les, anghenion dysgu ychwanegol disgyblion, tegwch,** a chyfeiriad at **Ddeddf Cydraddoldeb 2020**:

**1. Cwricwlwm i Gymru (Mewnbynnau rhaglen)**

Ar hyn o bryd, mae'r Meini Prawf ar gyfer 'mewnbynnau rhaglen' yn gwahanu'r rhaglen astudio y mae'n rhaid i Bartneriaeth ei darparu ar gyfer ei hathrawon dan hyfforddiant, yn **'astudiaethau craidd', 'astudiaethau proffesiynol ac astudiaethau addysgegol'**, **'astudiaethau pwnc'** a **'phrofiad ysgol'**. Mae hyn yn golygu bod agweddau pwysig, cydberthnasol ar ddysgu ac addysgu yn dameidiog, fel y dangosir yn yr enghreifftiau isod:

- mae 'rôl asesu mewn addysgu a dysgu' **(Astudiaethau craidd)** wedi'i gwahanu oddi wrth 'cynllunio'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr' **(Astudiaethau proffesiynol ac addysgegol)**, ac 'addysgeg pwnc a gwybodaeth am gynnwys addysgegol'
- mae 'gwybodaeth am gynnwys addysgegol' **(Astudiaethau proffesiynol ac addysgegol)** wedi'i gwahanu oddi wrth 'gwybodaeth am gynnwys, sy'n briodol i gyfnod oedran neu bwnc arbenigol athrawon dan hyfforddiant...' **(Astudiaethau pwnc)**

Yn ymarferol, mae llawer o bartneriaethau wedi creu eu modiwlau unigol o amgylch y mewnbynnau rhaglen hyn, er enghraifft trwy gyflwyno modiwl ar 'Astudiaethau Craidd', gyda'r cynnwys yn benodol ar gyfer astudiaethau craidd yn y Meini Prawf. Mae hyn yn golygu nad yw'r strwythur modiwl o fewn rhaglen bob amser yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i wneud cysylltiadau pwysig rhwng agweddau ar y cwricwlwm, addysgu ac asesu, nac yn adlewyrchu egwyddorion dylunio Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn ddigon da. Yn ychwanegol, byddai'n fuddiol pe bai'r Meini Prawf yn cynnwys cyfeiriad cryfach at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o ddulliau addysgegol ar gyfer plant *yng nghamau* cynnar eu haddysg o dan 'Mewnbynnau Rhaglen'. Yn hyn o beth, gallai fod yn fuddiol cynnwys cyfeiriad at ganllawiau defnyddiol iawn Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef **'Galluogi Dysgu'**, a ddatblygwyd i gefnogi cwricwlwm sy'n addysgegol briodol ar gyfer pob dysgwr.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Meini Prawf yn adlewyrchu elfennau gorfodol y cwricwlwm, sef **Crefydd, gwerthoedd a moeseg** ac **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb,** y **medrau ehangach** (dawn greadigol ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu), **gofynion ehangach** (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015) a **Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**.

Byddai'n fuddiol pe gallai'r Meini Prawf roi syniad clir i Bartneriaethau ynghylch p'un a oes gofyniad ar raglenni cynradd i ddatblygu gallu athrawon dan hyfforddiant i gyflawni gofynion galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a medrau mewn **ieithoedd rhyngwladol**,

yn ogystal â mewn Cymraeg a Saesneg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

**2. Cwricwlwm i Gymru (Astudiaethau pwnc)**

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi dulliau sy'n dwyn gwahanol ddisgyblaethau ynghyd mewn dylunio'r cwricwlwm, gyda'r nod o ddarparu profiad dysgu mwy cydlynus ar gyfer dysgwyr. I athrawon dan hyfforddiant, fel y nodwyd yn y Meini Prawf, mae'n bwysig iddynt ennill gwybodaeth am gynnwys sy'n briodol i'w 'cyfnod oedran a ddewiswyd gan yr athrawon dan hyfforddiant neu eu pwnc arbenigol, gan gynnwys cysyniadau allweddol, sylwedd a strwythur y pwnc' a 'gwybodaeth am gynnwys o ran addysgeg, sy'n briodol i gyfnod oedran neu bwnc arbenigol' (Llywodraeth Cymru, 2018, tud.22). Mae hyn yn gofyn i athrawon dan hyfforddiant ymgysylltu â strwythur gwybodaeth, dysgu a datblygiad medrau o fewn pynciau neu feysydd astudio amlwg, fel sylfaen angenrheidiol, ar gyfer cysylltu dysgu'n effeithiol o fewn gwahanol ddisgyblaethau, ac ar eu traws.

Mae 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2016) yn ei gwneud yn glir na ddylid defnyddio meysydd dysgu a phrofiad fel dyfais amserlennu. Trwy ddefnyddio'r is-bennawd, **'5.7.1 Meysydd Dysgu a Phrofiad'**, mae hyn wedi annog Partneriaethau i drefnu'r modd y maent yn cyflwyno'u modiwl Astudiaethau Pwnc yn ôl maes dysgu a phrofiad mewn rhaglenni cynradd ac uwchradd, fel ei gilydd, yn union fel y mae llawer o ysgolion wedi grwpio eu hadrannau pwnc yn feysydd dysgu a phrofiad. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu nad yw athrawon dan hyfforddiant yn cael digon o gyfle i fynd i'r afael â gwybodaeth a medrau sy'n ymwneud yn benodol â phwnc neu ddisgyblaeth yn ddigon da, na'r wybodaeth am gynnwys addysgegol sydd ei hangen arnynt fel sylfaen i wneud cysylltiadau ystyrlon ar draws dysgu, sy'n fedr mwy soffistigedig nag y mae'r Meini Prawf yn ei awgrymu. Nid yw hyn yn golygu eirioli 'creu ffiniau o ran addysgu pynciau' (y mae'r Meini Prawf presennol yn gwarchod yn eu herbyn ar dudalen 22). Fodd bynnag, byddai'r Meini Prawf yn gryfach trwy sicrhau cydbwysedd gwell i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth sy'n ymwneud yn benodol â phwnc ac yn benodol â sector, fel bod ganddynt y gallu i gynllunio ac addysgu ymagwedd integredig o ansawdd uchel at ddysgu ar gyfer disgyblion erbyn iddynt ennill Statws Athro Cymwys (SAC). Yn ogystal â chynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu gwybodaeth a medrau dwfn mewn meysydd pwnc neu gyfnod oedran, mae'r newidiadau hyn yn debygol o gyfrannu at welliannau mewn dylunio a chydlyniaeth rhaglenni, yn enwedig o ran sut mae Partneriaethau yn cefnogi integreiddio theori ac arferion.

Nid yw cyfeirio at y pedwar diben *ar ôl* y meysydd dysgu a phrofiad yn y Meini Prawf yn adlewyrchu eu hamlygrwydd yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, na'u bwriad fel y man cychwyn a'r dyhead ar gyfer dylunio cwricwlwm ysgolion. Gallai hyn gyfrannu trwy amryfusedd at ddiffygion yn nealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o natur gyfannol y pedwar diben a'r medrau annatod sy'n eu hategu.

Mae ein hadroddiad thematig, Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn nodi cyfres o argymhellion ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i gefnogi **gwrth-hiliaeth, amrywiaeth** ac addysgu hanes a diwylliant **Cymru a hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig**. Rydym yn ystyried bod hon yn agwedd bwysig ar ddysgu proffesiynol ar gyfer yr holl athrawon dan hyfforddiant.

**4. Lles, anghenion dysgu ychwanegol, tegwch a chydraddoldeb**

Rydym yn argymell y dylai adran **5.8 Lles** y Meini Prawf gynnwys ffocws cryfach o lawer ar ddiogelu plant a phobl ifanc, fel rhan o 'allu athrawon dan hyfforddiant i gyfrannu at les

y disgyblion yn eu gofal' (Llywodraeth Cymru, 2018, tud.23). Mae canllawiau 'Cadw dysgwyr yn ddiogel' (Llywodraeth Cymru, 2021, tud.3) yn dweud:

> Mae'r canllawiau hefyd yn amlinellu arfer effeithiol ar gyfer lleoliadau addysg ehangach ac asiantaethau cysylltiedig, yn enwedig y rhai sy'n cael eu harolygu gan Estyn. Argymhellir bod hyn yn berthnasol ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, darparwyr dysgu yn y gwaith, perchnogion darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, **arweinwyr partneriaeth addysg gychwynnol athrawon (AGA)**, byrddau diogelu plant, sefydliadau addysg uwch, Gyrfa Cymru a lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir a ariennir.

Rydym yn cynnig y dylai'r Meini Prawf gyfeirio at y canllawiau pwysig a chyfrifoldebau Partneriaethau AGA, sy'n cael eu crynhoi ar dudalen 20 'Cadw dysgwyr yn ddiogel', o dan adran **'Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Bartneriaeth'** y Meini Prawf.

Rydym yn awgrymu bod angen diweddaru a chryfhau cyfeiriadau at **anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** trwy gydol y Meini Prawf. O ystyried graddfa diwygio ADY yng Nghymru, nid yw un pwynt bwled cyffredinol o dan 'Astudiaethau Craidd' am gynllunio'r cwricwlwm 'i fodloni anghenion *pob* dysgwr' (Llywodraeth Cymru, 2018, tud.22) yn ddigonol.

Mae Adran A y canllawiau achredu yn cyfeirio'n fras at dlodi yng nghyd-destun Cymru fel rhan o brofiadau dysgu athrawon dan hyfforddiant ac yn darparu dolen at 'Strategaeth Tlodi Plant Cymru' (2015), ond ni chaiff y ffocws hwn ei adlewyrchu yn y Meini Prawf eu hunain. Rydym yn awgrymu bod ymagwedd system gyfan at sicrhau **tegwch a rhagoriaeth** ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru yn golygu y dylai hon fod yn agwedd amlwg ar yr holl raglenni AGA.

Yn adran **5.10 Deddf Cydraddoldeb 2010**, mae'r Meini Prawf yn nodi 'y bydd angen i bartneriaethau sicrhau nad yw gweithdrefnau a pholisïau dethol yn gwahaniaethu'n annheg yn erbyn ymgeiswyr sydd ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig' (Llywodraeth Cymru, 2018, tud.21). Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'n adlewyrchu'r holl nodweddion gwarchodedig.

**6. A oes yna unrhyw ddiwygiadau penodol y gallem eu gwneud i'r meini prawf i egluro a chefnogi datblygiad ymhellach?**

| Adran | Teitl yr Adran | Sylwadau / Diwygiadau |
|---|---|---|
| A: Gweledigaeth | Y cyd-destun polisi | Mae Adran A ar Weledigaeth wedi cael ei gwahanu oddi wrth y 'Meini Prawf ar gyfer achredu' (Adran B). Mae hyn yn awgrymu bod y cynnwys o dan 'Gweledigaeth' ar wahân i'r meini prawf achredu, ac felly *ni* chaiff ei farnu fel rhan o'r broses achredu. Fodd bynnag, yn yr adran 'Gweledigaeth', mae'r ddogfen yn amlinellu'r hyn y *mae'n* ofynnol i ddarparwyr ei wneud, er enghraifft i: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • ‘sicrhau bod sefydliadau addysg uwch (SAUau) ac ysgolion yn gweithio’n agos fel partneriaid i ddylunio a hwyluso AGA’,<br>• ‘denu ymgeiswyr o’r radd flaenaf i’r proffesiwn addysgu’<br>• ‘datblygu gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o amrywiaeth ddiwylliannol mewn cymdeithas ac yn yr ystafell ddosbarth’<br>• ‘sicrhau safonau uchel o ran llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol yr athrawon dan hyfforddiant eu hunain …’ ac ati.<br><br>(Y cyd-destun polisi, tt.7-8)<br><br>Gellid crynhoi’r rhestr o ofynion ar ffurf pwyntiau bwled ar tt.7-8. Mae’n cynnwys manylion am **gymhwysedd digidol** athrawon dan hyfforddiant sy’n cael eu hailadrodd yn ddiweddarach mewn adrannau eraill.<br><br>Rydym yn awgrymu y gellid rhesymoli cynnwys Adran A trwy wahanu cyd-destun polisi’r weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru *oddi wrth* y weledigaeth y mae angen i Bartneriaeth ei sefydlu ar gyfer ei rhaglen(ni). Mae’r weledigaeth y mae angen i'r Bartneriaeth ei sefydlu yn gweddu’n rhesymegol o dan strwythurau a phrosesau Rhaglen, ble cyfeirir at hyn hefyd. |
| Adran A: Gweledigaeth | Profiadau dysgu athrawon dan hyfforddiant | Byddai’r adran hon o’r ddogfen, y bwriedir iddi esbonio pam mae angen i raglenni fod ‘yn fanwl ymarferol ac yn heriol ddeallusol ar yr un pryd’, yn elwa ar ffocws o’r newydd. Er enghraifft, mae’n rhoi cryn dipyn o fanylion am rai agweddau ar brofiadau dysgu athrawon dan hyfforddiant (h.y. gwybodaeth am gymdeithas Gymraeg gyfoes) ond dim digon o gyfeiriad at feysydd pwysig, fel datblygu medrau cynllunio, asesu a gwerthuso athrawon dan hyfforddiant.<br><br>Os yw’r adran hon am aros, byddai’n fuddiol i’r darllenydd esbonio’n glir beth a olygir o ran *‘gweithwyr proffesiynol llawn’*, *‘amddiffyn eu ‘damcaniaethau’ eu hunain o arferion proffesiynol’* a *‘dod yn weithwyr proffesiynol cywir drwy eu hawl eu hunain’*. Byddem yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | awgrymu y dylid defnyddio ymadroddion a therminoleg fwy modern, er enghraifft yn hytrach nag “one’s teaching”. Cyfeirir at yr angen i athrawon dan hyfforddiant ‘ddeall rhywbeth am strwythur gwybodaeth yn y pynciau maent yn eu haddysgu …’ (tud.9), ond ar hyn o bryd, nid yw’r canllawiau’n cyfeirio at **fedrau** sy’n benodol i bwnc na medrau trawsgwricwlaidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried cynnwys y Cwricwlwm i Gymru. |
| B – Meini Prawf ar gyfer Achredu | 4. Strwythurau a phrosesau rhaglenni | Gall y system rhifo dogfennau fod yn ddryslyd i’r darllenydd gan fod y Meini Prawf ar gyfer achredu yn dechrau â ‘4. Strwythurau a phrosesau rhaglenni’. |
| | 4.1 – Arweinyddiaeth a rheolaeth y bartneriaeth | Mae’r meini prawf yn nodi bod angen i ysgolion partneriaeth arweiniol ‘chwarae rhan lawn yn y broses i sicrhau ansawdd a hunanwerthuso pob rhaglen (tud.12) a gofyn iddynt ‘ddangos sut bydd hunanwerthuso’n cyfrannu at wella darpariaeth yn barhaus’ (tud.13). Fodd bynnag, gallai’r troednodyn (isod) sy’n cyd-fynd â’r datganiad hwn ysgogi ymddygiadau di-fudd trwy gasglu mai digwyddiad untro yw hunanwerthuso. Gallai fod yn fuddiol rhoi enghreifftiau sy’n cyfleu ystod ehangach o wybodaeth y gallai Partneriaeth (yn hytrach na SAU) ei chasglu, fel rhan o’i hunanwerthuso, i nodi ei chryfderau a meysydd i’w datblygu:<br><br>‘Dylai hunanwerthuso gynnwys, yn rheolaidd ac o leiaf yn flynyddol, archwilio adroddiadau arholwyr allanol, datblygu a defnyddio data perfformiad ac ymchwil, yn ogystal â dulliau safoni a meincnodi eraill.’ (tud.13)<br><br>Trwy wahanu ‘hunanwerthuso’ oddi wrth y pwyntiau bwled eraill ar ddefnyddio data a chasglu barn athrawon dan hyfforddiant ac ysgolion, efallai nad yw hyn yn cynorthwyo Partneriaethau i ddatblygu barn wybodus am beth yw hunanwerthuso effeithiol a phwysigrwydd triongli tystiolaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | 4.2 Meini Prawf ar gyfer cynnwys ysgolion yn y bartneriaeth | Ar hyn o bryd, mae'r meini prawf yn datgan 'y dylai'r SAU ystyried ysgolion effeithiol yn unig sy'n cael eu cydnabod o fewn eu rhanbarthau am eu darpariaeth ansawdd uchel.' (tud.14). Dylai hyn fod yn ystyriaeth ar gyfer 'y Bartneriaeth', ac nid y SAU yn unig. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol cydnabod y gallai Partneriaethau weithio gydag awdurdodau lleol ac nid consortia rhanbarthol yn unig.<br><br>O ystyried bod graddau crynodol yn cael eu dileu ar gyfer meysydd arolygu mewn arolygiadau ysgolion a'r sefyllfa bresennol o ran categoreiddio cenedlaethol, byddai'n amserol ailystyried yr hyn sy'n cael ei ddweud yn y ddogfen am gynnwys ysgolion yn y Bartneriaeth. |
| | 4.3 Rolau a chyfrifoldebau ym mhob ysgol bartner | Yn yr adran hon, yn benodol, byddai'n fuddiol adolygu p'un a yw pob datganiad yn ofyniad, yn argymhelliad neu'n awgrym, gan fod tegwch yn ystyriaeth bwysig ar gyfer profiadau athrawon dan hyfforddiant mewn ysgolion partner, er enghraifft:<br><br>'Ym mhob cyd-destun profiad mewn ysgol, yn ogystal ag arsylwi ystod eang o addysgu, dylai athrawon dan hyfforddiant gynllunio ac addysgu gwersi neu gyfres o wersi a chael adborth adeiladol').<br><br>Gellid cynnwys yr adran ar 'ysgolion bach' fel troednodyn byrrach. |
| | 5 Mewnbynnau Rhaglen | Byddai'n fuddiol peidio â chyfuno 'elfennau cyrsiau' â moddau dysgu. Mae'r enghreifftiau a ddarperir, fel 'dysgu wyneb yn wyneb' a 'dysgu cyfunol', yn foddau dysgu (tud.20).<br><br>Mae gwybodaeth am athrawon dan hyfforddiant y mae angen iddynt gael profiad o ddau leoliad ysgol cyferbyniol, o leiaf, wedi'i chynnwys yn rhywle arall, felly gellid dileu hyn o'r adran hon. |
| | 5.9 Profiad ysgol | Mae'r adran hon yn ailadrodd gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn rhywle arall ynglŷn |

| | | |
|---|---|---|
| | | â pham mae'r rhan hon o'r rhaglen yn bwysig. |
| | 5.11 Asesu athrawon dan hyfforddiant a 5.11.1 Proffil Dechrau Gyrfa | Byddai'n fuddiol cyfeirio at y Pasbort Dysgu Proffesiynol yn yr adrannau hyn. |
| | 5.11.2 Gwella trwy asesu | Mae negeseuon pwysig yn yr adran hon am ddefnyddio asesu safonau athrawon dan hyfforddiant i gefnogi gwerthuso a gwella rhaglenni. Byddai'n fuddiol pe bai'r is-bennawd yn adlewyrchu hyn yn gliriach, yn enwedig gan fod y ddwy adran flaenorol am asesu athrawon dan hyfforddiant a'u gwelliant parhaus. Gall fod yn ddefnyddiol creu dolen gyswllt rhwng yr adran hon ac adran y ddogfen sy'n cyfeirio at hunanwerthuso. |

7. **A oes yna unrhyw fyfyrdodau neu sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ynglŷn â chryfhau ein dealltwriaeth ar y cyd o addysg athrawon yng Nghymru trwy'r Meini Prawf?**

Arsylwadau cyffredinol:

Yn ogystal â'r diweddaru amlwg sydd ei angen i adlewyrchu polisi addysgol cyfredol yng Nghymru, byddai'n elwa ar gael ei ad-drefnu, ei leihau a darlunio cliriach rhwng:

- **gwybodaeth gefndir a chyd-destun**
- **theori am ddarpariaeth AGA effeithiol**, a'r
- **gofynion** ar gyfer rhaglenni o ran y meini prawf achredu.

Byddai'n ddefnyddiol adolygu'r defnydd o 'bydd', 'angen', 'rhaid' a 'dylai' yn y meini prawf achredu i sicrhau bod eglurder ynglŷn â'r graddau y mae maen prawf yn ofyniad achredu (a gofyniad cyfreithiol), arweiniad, argymhelliad neu'n awgrym (e.e. 'efallai yr hoffai').

Hefyd, byddai'n fuddiol adolygu terminoleg er cysondeb a sillafu. Er enghraifft, defnyddir 'programme', 'program' a 'course' (e.e. '5.2 Course aims') yn y ddogfen. Cyfeirir at athrawon dan hyfforddiant fel 'hyfforddeion'; cyfeirir at ddysgwyr fel 'disgyblion' a 'myfyrwyr', a disgrifir staff fel 'personél' hefyd. Defnyddir 'Digital competence' a 'digital competency'. Mae rhywfaint o derminoleg a mynegiant wedi dyddio (er enghraifft, 'DPP', 'anghenion addysgol arbennig ac ychwanegol').

Mae'r **Crynodeb Gweithredol** yn amlinellu'r broses ar gyfer datblygu'r Meini Prawf Achredu a'r rhesymeg y tu ôl i'r trefniadau newydd. Hefyd, mae'n rhoi trosolwg eithaf hir o strwythurau a phrosesau'r rhaglen, gyda manylion bras am y mewnbynnau rhaglen a'r deilliannau rhaglen gofynnol. Felly, mae'n ymddangos bod y trosolwg o'r Meini Prawf ar gyfer achredu yn ymddangos ychydig yn anghytbwys.

**1. Y cyd-destun polisi**

Mae Adran A ar Weledigaeth wedi cael ei gwahanu oddi wrth y 'Meini Prawf ar gyfer achredu' (Adran B). Mae hyn yn awgrymu bod y cynnwys o dan 'Gweledigaeth' ar wahân i'r Meini Prawf achredu, ac felly *ni* chaiff ei farnu fel rhan o'r broses achredu. Fodd bynnag, o fewn yr adran 'Gweledigaeth', mae'r ddogfen yn amlinellu'r hyn y *mae'n* ofynnol i ddarparwyr ei wneud, er enghraifft:

- 'sicrhau bod sefydliadau addysg uwch (SAUau) ac ysgolion yn gweithio'n agos fel partneriaid i ddylunio a hwyluso AGA',
- 'denu ymgeiswyr o'r radd flaenaf i'r proffesiwn addysgu'
- 'datblygu gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o amrywiaeth ddiwylliannol mewn cymdeithas, ac yn yr ystafell ddosbarth'
- 'sicrhau safonau uchel o ran llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol yr athrawon dan hyfforddiant eu hunain…' ac ati. (Y cyd-destun polisi, tt.7-8)

Mae'r rhestr o ofynion ar ffurf pwyntiau bwled ar tt.7-8 yn cynnwys gormod o fanylion diangen am **gymhwysedd digidol** athrawon dan hyfforddiant, a'r cynnwys yn cael ei ailadrodd wedyn mewn adrannau eraill.
Efallai byddai'n gwneud mwy o synnwyr rhesymoli'r cynnwys hwn trwy wahanu cyd-destun polisi'r weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru *oddi wrth* y weledigaeth y mae angen i Bartneriaeth ei sefydlu ar gyfer ei rhaglen(ni). Mae'r weledigaeth y mae angen i'r Bartneriaeth ei sefydlu yn gweddu'n rhesymegol o dan strwythurau a phrosesau Rhaglen, ble cyfeirir at hyn hefyd.

**2. Profiadau dysgu athrawon dan hyfforddiant**
Mae'r adran hon o'r ddogfen, sydd wedi'i bwriadu i esbonio pam mae angen i raglenni fod 'yn fanwl ymarferol ac yn heriol ddeallusol ar yr un pryd', yn rhoi gormod o fanylion am rai agweddau ar brofiadau dysgu athrawon dan hyfforddiant (h.y. gwybodaeth am gymdeithas Gymraeg gyfoes) a dim digon o gyfeiriad at feysydd pwysig, fel datblygu medrau cynllunio, asesu a gwerthuso athrawon dan hyfforddiant.
Os yw'r adran hon am aros, byddai'n elwa ar eglurder ychwanegol, er enghraifft esbonio beth a olygir o ran 'gweithwyr proffesiynol llawn', 'amddiffyn eu 'damcaniaethau' eu hunain o arferion proffesiynol' a 'dod yn weithwyr proffesiynol cywir drwy eu hawl eu hunain'.
Cyfeirir at yr angen i athrawon dan hyfforddiant 'ddeall rhywbeth am strwythur gwybodaeth yn y pynciau maent yn eu haddysgu …' (tud.9), ond nid oes cyfeiriad at **fedrau** sy'n benodol i bwnc na medrau trawsgwricwlaidd (mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y diffygion ym medrau disgyblion o ganlyniad i'r pandemig).

Er eglurder, dylai'r ddogfen gyfeirio'n uniongyrchol at y 'safonau ar gyfer SAC', yn hytrach na 'Mae angen iddynt gael eu paratoi i gyflawni'r safonau proffesiynol perthnasol ar gyfer cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru' (tud.19).

Yn nogfen flaenorol Gofynion 2013, roedd ychydig o **'Gwestiynau i ddarparwyr eu hystyried'** o dan bob adran. Gallai hwn fod yn ychwanegiad buddiol at y ddogfen hon, a gallai helpu cefnogi'r agweddau ar y Meini Prawf Achredu y mae Partneriaethau wedi cael trafferthion â nhw yn eu cyflwyniadau hyd yma.

**8. Ydych chi'n rhoi'r adborth hwn fel unigolyn neu ar gyfer eich sefydliad?**

☐ **Unigolyn**
✓ **Sefydliad**

**Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, dywedwch sut byddech chi'n disgrifio'ch hun**

| |
|---|
| *Er enghraifft: Athro dan Hyfforddiant, Athro Newydd Gymhwyso, Mentor, Athro Ystafell Ddosbarth, Rhiant, Llywodraethwr, ac ati.* |

**9. Enw'r Sefydliad**

| |
|---|
| **Estyn** |

**10. 'Math' o Sefydliad**

- ☐ **Ysgol Gynradd**
- ☐ **Ysgol Uwchradd**
- ☐ **Ysgol Pob Oed**
- ☐ **Chweched Dosbarth / Coleg AB**
- ☐ **Prifysgol – Partneriaeth AGA**
- ✓ **Sefydliad Haen 'Ganol' (e.e. Estyn)**
- ☐ **Corff Proffesiynol / Undeb Gweithlu Addysg**
- ☐ **Arall __________________**

**11. Cysylltwch trwy anfon neges e-bost (efallai y byddwn yn cysylltu â chi er mwyn egluro'ch atebion, os oes angen)**

| | |
|---|---|
| ChiefInspector@estyn.gov.uk | |